TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 06 Rhagfyr 2021

# Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n Polisi Rheoli Data a Gwybodaeth.

**Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:**

*"Efallai eich bod yn cofio i mi wneud Cais Rhyddid Gwybodaeth i chi rhyw ddeufis yn ôl yn gofyn faint o siaradwyr Cymraeg sydd gennych chi, ac fe honnoch chi nad oedd y wybodaeth hon gennych chi eto, ond y byddai'r wybodaeth gennych chi ar ôl canol mis Hydref, felly rwy'n gwneud Cais Rhyddid Gwybodaeth newydd nawr i gael y wybodaeth hon gan fy mod yn meddwl y bydd gennych chi'r wybodaeth bellach:*

*Rhowch wybod i mi faint o staff mae TrC yn eu cyflogi ar hyn o bryd a faint o'r rheiny sy'n siaradwyr Cymraeg.*

*Allech chi ddarparu'r ystadegau hyn ar gyfer pob rhan o'ch cwmni (TrC Craidd a Rheilffyrdd TrC ac Arloesi TrC).* **[Rhan A]**

*Hefyd, os oes gennych chi'r wybodaeth hon, a allech chi hefyd roi gwybod am y canlynol:*

*Faint o Yrwyr ydych chi'n eu cyflogi ar hyn o bryd a faint o'r rheiny sy'n siaradwyr Cymraeg?*

*Faint o Giardiaid ydych chi'n eu cyflogi ar hyn o bryd a faint o'r rheiny sy'n siaradwyr Cymraeg?*

*Faint o Arolygwyr Diogelu Refeniw ydych chi'n eu cyflogi ar hyn o bryd a faint o'r rheiny sy'n siaradwyr Cymraeg?*

*Faint o Glercod Swyddfa Docynnau ydych chi'n eu cyflogi ar hyn o bryd a faint o'r rheiny sy'n siaradwyr Cymraeg?* **[Rhan B]**

**Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydyn ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:**

**TrC Craidd ac Arloesi TrC**

Mewn perthynas â Rhan A eich cais: O ganlyniad i newidiadau staffio yn yr adran Adnoddau Dynol, nid ydym yn anffodus wedi gallu casglu'r wybodaeth hon a diweddaru ein system o fewn yr amserlenni a fwriadwyd yn wreiddiol. Mae'n dal i fod gennym gynlluniau i gwblhau hyn, a'n nod bellach yw cwblhau'r ymarfer hwn erbyn canol 2022. Nid yw Rhan B eich cais yn berthnasol i TrC Craidd ac Arloesi TrC.

**Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf**

Mewn perthynas â Rhan A eich cais: Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chadw ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae system ar gyfer casglu a choladu'r data hwn wrthi'n cael ei datblygu, a bydd nodyn atgoffa'n cael ei gylchredeg cyn bo hir yn gofyn i'r holl weithwyr roi'r wybodaeth hon yn wirfoddol gan ddefnyddio'r porth hunanwasanaeth presennol i weithwyr. Wrth symud ymlaen, bydd yr wybodaeth hon hefyd yn cael ei chasglu pan fydd staff yn dechrau cael eu cyflogi.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".